# Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE) Pecyn Cymorth Sefydliadau Gwybodussy'n Ystyriol

## Cynllun Gweithredu

Bydd cynllun gweithredu cryf yn:

- Bodloni ymrwymiad strategol trosfwaol, a nodau strategol diffiniedig y sefydliad o fod yn ystyriol o TrACE.
- Ymgorffori nodau tymor byr, canolig a hir y cytunwyd arnynt gan y gweithgor/grŵp llywio sydd wedi'i sefydlu ar gam cyntaf y broses.
- Canolbwyntio ar y gweithgareddau a fydd yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni yn ôl y nodau y cytunwyd arnynt i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE.
- Cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y grŵp llywio mewnol.

Mae'r templed isod yn enghraifft o gynllun gweithredu lefel uchel sy'n ystyried yr ymrwymiadau cyffredinol ac mae'n lle da i ddechrau gyda'r broses hon. Efallai y byddai'n well gan rai pobl gael cynllun gweithredu manylach sy'n dadansoddi manylion y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phob maes, ond mae hyn yn ddewis personol ac mae'r ymagwedd at y cam hwn yn bersonol i'r arddull gweithio.

Enw'r sefydliad: Wedi'i gwblhau erbyn: Dyddiad:

| **Parth** | **Cam gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Amserlen ar gyfer Cwblhau** | **Adnoddau Angenrheidiol** | **Canlyniad** | **Mesurau mesuradwy** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol | | | | | | |
| Polisïau a Gweithdrefnau | | | | | | |
| Hyfforddiant a Chymorth i'r Gweithlu | | | | | | |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | | | | | | |
| Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau | | | | | | |
| Monitro a Gwerthuso | | | | | | |

Ar ôl datblygu'r cynllun gweithredu, ag ymgysylltiad a chyfranogiad y rhai sydd â phrofiad o'r sefydliad neu wasanaeth (fel staff neu gwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth/cleientiaid), mae'r cam nesaf yn ymwneud â'i gyflawni. Mae potensial bob amser am heriau a newidiadau mewn cyfeiriad, er gwaethaf faint o waith paratoi sydd wedi'i wneud, felly caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd ac efallai y bydd angen ei addasu'n rheolaidd.